# Y CABINET DYDD MAWRTH, 12 GORFFENNAF 2016

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg) a Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros Dro)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dyfed Edwards a Ioan Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Yn dilyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu yn unol â'r gofyn, cymeradwyo i'r Adran Rheoleiddio fwrw ymlaen â'r camau canlynol:

1. Ymrwymo i wneud yr Uned Difa Pla mor hunan gyllidol a phosib drwy gynyddu incwm o oddeutu £40,000 y flwyddyn, yn hytrach na diddymu'r gwasanaeth Difa Pla yn ei gyfanrwydd.

2. Diddymu swydd Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ac addasu swydd gyfredol yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i gynnwys cyfrifoldeb am y Gwasanaeth

Gwarchod y Cyhoedd yn ogystal, er mwyn cwrdd â'r arbediad Cam 2 Gwarchod y Cyhoedd (£69,000).

3. Bwrw ymlaen i gyfarfod arbediad o £278,440 fel y manylir yn 5.2 o'r adroddiad a gyflwynwyd, drwy weithredu ar gynllun amgen. Fe fydd y cynllun amgen yn canolbwyntio ar gynyddu incwm (yn deillio yn bennaf o'r ymdrechion i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd), newid strwythur a lleihau risgiau sydd yn rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag cael eu gwireddu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MEHEFIN 2016

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28ain o Fehefin 2016.

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - ADNABOD RISGIAU CYNNAR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2016/17 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth.

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod, sef:

- cynnydd £3,276,000 mewn amryw ffynhonnell i ariannu gwir lithriadau o 2015/16
- cynnydd £3,459,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £29,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £82,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd £441,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

## 8. EGWYDDORION CYFUNDREFN ADDYSG ADDAS I BWRPAS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Caniatáu'r Aelod Cabinet Addysg i ymgynghori gyda Llywodraethwyr ac ysgolion am addasrwydd yr egwyddorion a fydd yn sylfaen i gyfundrefn addysg ar gyfer y dyfodol i Wynedd.

Derbyn yr adroddiad ar Arweinyddiaeth fel sail i hyrwyddo trafodaeth am gyfundrefn addysg addas i bwrpas.

## 9. GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

Yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, symud ymlaen i gwblhau'r broses statudol i gadarnhau'r Gorchymyn Parcio newydd ar gyfer Gwynedd.

Sefydlu Tocyn Parcio Lleol newydd a fydd yn caniatáu i breswylwyr brynu tocyn parcio blynyddol ar gyfer y maes parcio agosaf at eu cartref am bris gostyngedig o £60 y flwyddyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.00 y.h.

**CADEIRYDD**